# GWEDDÏO SY'N BYWHAU
# Anogaethau Gweddi

## DIWRNOD 1 (Sul) Salm 42

Darllenwch ad 1-2. Cymerwch eiliad i fynegi dyhead eich calon am Dduw.

Darllenwch ad 3-7. Cymerwch eiliad i dywallt eich enaid, sut bynnag yr ydych yn teimlo ar y funud, o flaen Duw.

Darllenwch ad 8-11. Cymerwch eiliad i gyhoeddi'r Efengyl dros eich enaid eich hun, gan dderbyn gobaith newydd o law Duw.

## DIWRNOD 2 (Llun) Salm 44

Darllenwch ad 1. Cymerwch eiliad i ofyn i'r Ysbryd Glân i ddwyn storïau ysbrydoledig am waith Duw i'ch cof, o'r Ysgrythur ac o hanes yr Eglwys.

Darllenwch ad 2-8. Cymerwch eiliad i fwrw eich adnoddau o flaen Duw gan ildio iddo mewn ffydd.

Darllenwch ad 9-22. Cymerwch eiliad i alaru am gyflwr yr eglwys yn ein cenedl.

Darllenwch ad 23-26. Cymerwch eiliad i bledio â Duw, y bydd yn cofio ei addewidion yn ein dydd.

## DIWRNOD 3 (Mawrth) Salm 45

Darllenwch ad 1-9. Cymerwch ychydig amser i weddïo y bydd teulu eich eglwys yn dod yn ymwybodol o brydferthwch y Brenin Iesu o'r newydd.

Darllenwch ad 10-17. Cymerwch eiliad i ildio i Grist fel ymateb i'w brydferthwch anghymharol.

## DIWRNOD 4 (Mercher) Salm 46

Darllenwch ad 1-3. Cymerwch eiliad i godi anghenion eich cymuned o flaen yr Arglwydd.

Darllenwch ad 4-7. Cymerwch eiliad i weddïo dros arweinwyr eglwysig, a dros y rhai sy'n plannu eglwysi, gan weddïo'n arbennig y bydd persbectif nefol yn cael ei ddiogelu iddynt.

Darllenwch ad 8-11. Cymerwch eiliad i wneud dim ond anadlu, ac i ymlonyddu ym mhresenoldeb Duw.

## DIWRNOD 5 (Iau) Salm 47

Darllenwch ad 1-4. Cymerwch eiliad i ddiolch i Dduw am eich iachawdwriaeth.

Read v5-7. Cymerwch eiliad i ganu cân o fawl i Dduw.

Read v8-9. Cymerwch eiliad i weddïo y bydd arweinwyr cymunedol a gwleidyddol yng Nghymru yn profi'r wefr o adnabod Iesu.

## DIWRNOD 6 (Gwener) Salm 48

Darllenwch ad 1-3. Cymerwch eiliad i ddiolch i Dduw am eich eglwys leol.

Darllenwch ad 4-8. Cymerwch eiliad i weddïo y bydd Duw yn amddiffyn eglwysi lleol yn eich cymuned.

Darllenwch ad 9-14. Cymerwch eiliad i weddïo dros weld yr efengyl yn cael eu rhannu o Gymru i'r Cenhedloedd, o'ch cymuned chi i gymunedau cyfagos ac o'ch bywyd chi i fywyd y genhedlaeth nesaf.

## DIWRNOD 7 (Sadwrn) Salm 50

Darllenwch ad 1-6. Cymerwch eiliad i fyfyrio ar ogoniant Iesu.

Darllenwch ad 7-15. Cymerwch eiliad i ofyn i'r Ysbryd Glân i chwilio eich calon, gan ddatguddio'r ffyrdd yr ydych wedi crwydro oddi wrth yr Arglwydd mewn gair a gweithred.

Darllenwch ad 16-23. Cymerwch ychydig amser i weddïo dros yr eglwysi yn eich cymuned, gan weddïo'n arbennig y bydd eu bywyd yn cael ei nodweddu gan hygrededd.

## DIWRNOD 8 (Sul) Salm 74

Darllenwch ad 1-3. Cymerwch eiliad i feddwl yn weddigar am y llefydd anial yn eich cymuned.

Darllenwch ad 4-11. Cymerwch eiliad i weddïo â hyder beiddgar y bydd Duw yn ymyrryd yn eich cymuned.

Darllenwch ad 12-17. Cymerwch eiliad i gyhoeddi buddugoliaeth Duw dros rymoedd y tywyllwch yn ein tir.

Darllenwch ad 18-23. Cymerwch eiliad i weddïo dros hygrededd yr eglwys.

## DIWRNOD 9 (Llun) Salm 75

Darllenwch ad 1. Cymerwch eiliad i alw allan enwau llefydd yng Nghymru o flaen Duw sy'n ymddangos yn anialwch ysbrydol.

Darllenwch ad 2-8. Cymerwch eiliad i eiriol dros y rhai sy'n profi tlodi enbyd yng Nghymru.

Darllenwch ad 9-10. Cymerwch eiliad i i ofyn i Dduw am gyfle i sefyll dros gyfiawnder heddiw.

## DIWRNOD 10 (Mawrth) Salm 77

Darllenwch ad 1-9. Cymerwch eiliad i ymlonyddu, gan ystyried pa emosiwn sy'n rheoli eich calon y funud yma - dewch ag ef o flaen Duw.

Darllenwch ad 10-14. Cymerwch eiliad i bledio blynyddoedd deheulaw'r Goruchaf yn eich bywyd. Cofiwch a phlediwch.

Darllenwch ad 15-20. Cymerwch eiliad i weddïo y bydd grym atgyfodiad Iesu yn cael ei brofi yn nyfnder tywyllwch a marwolaeth eich cymuned.

## DIWRNOD 11 (Mercher) Salm 79

Darllenwch ad 1-7. Cymerwch eiliad i greu rhestr weddi o amgylch yr ymadrodd, '*Pa hyd*'.

Darllenwch ad 8-12. Cymerwch eiliad i weddïo drwy un o'r deisyfiadau sydd yn yr adnodau hyn, gan roi'r ffocws yn eich gweddïau at yr angen am ddiwygiad yng Nghymru.

Darllenwch ad 13. Cymerwch eiliad i weddïo dros unigolion yn eich bywyd sydd yn anghredinwyr hyd yn hyn. Gweddïwch am eu hiachawdwriaeth.

## DIWRNOD 12 (Iau) Salm 80

Darllenwch ad 1-3. Cymerwch eiliad i ystyried pa agwedd o natur Duw y mae angen i chi gael gwell gafael arno. Gofynnwch i Dduw i ddatguddio hyn i chi.

Darllenwch ad 4-7. Cymerwch eiliad i ystyried ymhle y gwelwch effeithiau'r Cwymp yn eich cymuned.

Darllenwch ad 8-15. Cymerwch eiliad i weddïo mewn ffydd am weld bendith yn cael ei thywallt ar Gymru.

Darllenwch ad 15-19. Cymerwch eiliad i addoli Iesu, gobaith ein tir.

## DIWRNOD 13 (Gwener) Salm 81

Darllenwch ad 1-7. Cymerwch eiliad i ymhyfrydu yn yr Efengyl o'r newydd.

Darllenwch ad 8-10. Cymerwch eiliad i edifarhau am yr eilunod sydd yn eich calon.

Darllenwch ad 11-16. Cymerwch eiliad i i ymlonyddu yn eich calon ac i wrando ar lais yr Ysbryd Glân ar gyfer eich eglwys, eich teulu neu dros Gymru.

## DIWRNOD 14 (Sadwrn) Salm 84

Darllenwch ad 1-4. Arhoswch am gyfnod arwyddocaol yng nghwmni Duw.

Darllenwch ad 5-7. Cymerwch eiliad i weddïo y bydd y rhai sy'n plannu eglwysi yn cael eu cryfhau.

Darllenwch ad 8-12. Cymerwch eiliad i weddïo dros bob arweinydd eglwysig, gan ofyn am gael eu gweld yn cerdded yn ostyngedig o flaen pobl, ac mewn perthynas agos â Duw.

## DIWRNOD YCHWANEGOL

## Salm 85

Darllenwch ad 1-7. Cymerwch eiliad i ddychmygu'n weddigar Gymru wedi ei hadnewyddu.

Darllenwch ad 8-9. Cymerwch eiliad i weddïo dros heddwch pobl Dduw ac iachawdwriaeth y colledig.

Darllenwch ad 10-13. Cymerwch eiliad i weddïo y bydd y rhai sy'n plannu eglwysi yn paratoi ffordd ar gyfer dyfodiad gogoniant Duw, drwy geisio ei deyrnas ef yn gyntaf yn eu bywydau a'u gweinidogaethau.